OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1879 (Cy.188)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *18 Gorffennaf 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Medi 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymgynghori, yn unol ag adran 3(7) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(**1**), â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol ac â chynrychiolydd ysgolion sy'n darparu lleoedd a gynorthwyir o dan adran 2(1) o'r Ddeddf honNo.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 3(1), (2), (5) a (9) o'r Ddeddf honno ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Medi 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ysgol sy'n dechrau ar 1 Medi 2002 neu wedyn.

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997(**3**)fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 10(4) a (6), yn lle "£1,430" ym mhob man lle y'i gwelir, rhoddir "£1,465".

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn lle "£11,116" rhoddir "£11,368".

(4) Yn lle'r tabl sy'n dilyn paragraff 2(1) o'r Atodlen honno, rhoddir y tabl canlynol—

(**1**) 1997 p.59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).

(**2**) Trosglwyddwyd Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1997/1968, a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/1726, O.S. 1998/1966, O.S. 1999/1504, O.S. 2000/1938 (Cy.136) ac O.S. 2001/2680 (Cy.221).

**"TABLE**

| *(1)*<br>*Part of relevant income to which specified percentage applies* | *(2)*<br>*Only assisted pupil (%)* | *(3)*<br>*Each of two assisted pupils (%)* | *(4)*<br>*Each of three assisted pupils (%)* |
|---|---|---|---|
| That part (if any) which exceeds £11,202 but does not exceed £12,181 | 9 | 6.75 | 5.25 |
| That part (if any) which exceeds £12,181 but does not exceed £13,175 | 12 | 9 | 7 |
| That part (if any) which exceeds £13,175 but does not exceed £15,147 | 15 | 11.25 | 8.75 |
| That part (if any) which exceeds £15,147 but does not exceed £18,188 | 21 | 15.75 | 12.25 |
| That part (if any) which exceeds £18,188 but does not exceed £22,151 | 24 | 18 | 14 |
| That part (if any) which exceeds £22,151 | 33 | 24.75 | 19.25" |

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*John Marek*
18 Gorffennaf 2002 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997 ("Rheoliadau 1997") mewn perthynas â blwyddyn ysgol yn dechrau ar 1 Medi 2002 neu wedyn. Mae Rheoliadau 1997 yn rhagnodi trefniadau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i barhau i gael lleoedd a gynorthwyir mewn ysgolion annibynnol yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997, er bod y cynllun cymorth lleoedd wedi'i ddileu gan adran 1 o'r Ddeddf honNo.

Mae'r swm sydd i'w dynnu yn yr incwm "perthnasol" mewn perthynas â pherthnasau dibynnol o dan reoliad 10(4) a (6) o Reoliadau 1997 yn cael ei gynyddu o £1,430 i £1,465.

Ar lefel incwm benodol, neu o dan y lefel honno, nid yw'r ffioedd yn cael eu casglu o gwbl. Mae'r lefel honno yn cael ei chynyddu i £11,368 yn lle £11,116, gyda chynnydd cyfatebol yn y swm nad yw'n cael ei gasglu os yw'r incwm "perthnasol" yn fwy na'r swm hwnnw.